SWYDDOG HYFFORDDI

SWYDD-DDISGRIFIAD

Oriau Llawn Amser

Yn atebol i: Grŵp Rheoli – Cymdeithas Chwaraeon Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyrff Rheoli Cenedlaethol, sports coach UK

Yn gyfrifol am: Cefnogi'r Cyrff Rheoli Cenedlaethol penodol yng Nghymru wrth iddynt ddatblygu hyfforddiant ac addysgu hyfforddwyr

Cyflog: £31,000 - £34,000 (yn dibynnu ar brofiad)

Man gwaith: Swyddfa yn Athrofa Chwaraeon Cymru, Caerdydd, ond bydd angen teithio'n helaeth ledled Cymru

Prif Ddyletswyddau:

- Arwain (ar y cyd â'r CRhC penodol yng Nghymru) datblygiad cynllun hyfforddi cynhwysfawr sy'n rhan o gynllun strategol y CRhC.
- Datblygu is-strwythur ar gyfer cyflwyno cynllun hyfforddi a gweithredu'r rhaglen.
- Codi proffil hyfforddi oddi mewn i'r CRhC penodol.
- Sicrhau y ceir is-strwythur oddi mewn i'r gamp sy'n galluogi i hyfforddiant gael ei gyflwyno ac sy'n gynaladwy e.e. pwyllgorau hyfforddi rhanbarthol.
- Cefnogi CRhC Cymru wrth iddynt weithio gyda grwpiau fframwaith hyfforddi'r DG, drwy gyfieithu Fframwaith Hyfforddi'r DG i Gymru.
- Cefnogi'r CRhC penodol i gynyddu nifer yr hyfforddwyr gweithredol.
- Datblygu is-strwythur oddi mewn i'r CRhC fel bod hyfforddwyr yn gallu derbyn cyfleoedd addysgu a chael eu datblygu (e.e. calendr y cyrsiau, hyfforddi'r gweithlu etc).
- Datblygu is-strwythur oddi mewn i'r CRhC fel bod hyfforddwyr yn cael eu recriwtio a'u defnyddio mewn ffordd fwy priodol.
- Arwain wrth ddatblygu system (ar y cyd gyda'r CRhC penodol yng Nghymru) er mwyn sicrhau bod hyfforddwyr yn derbyn gofal da ac yn cael eu gwerthfawrogi.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda'r holl randdeiliaid allweddol oddi mewn i bob un o'r CRhC er mwyn sicrhau bod yr aelodau ar bob lefel yn cael gwybodaeth reolaidd am ddatblygiadau hyfforddi.

- Sefydlu a chreu cysylltiadau rhwng swyddogaethau amrywiol y cyrff rheoli a'r sefydliadau datblygu chwaraeon ehangach.
- Rheoli cyllidebau perthnasol i rôl y Cydlynydd Addysgu Hyfforddiant.
- Darparu adroddiadau cynnydd yn erbyn y targedau i'r grŵp rheoli.
- Sicrhau bod y cynlluniau hyfforddi yn unol â Datblygiadau'r DG.
- Sicrhau bod y tasgau yr ymgymerir â hwy'n rhoi ystyriaeth briodol i bob agwedd ar gynnwys.

Nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysfawr. Gan fod y swydd yn esblygu, efallai y bydd cyfrifoldebau ychwanegol, yn briodol i radd y swydd, yn cael eu datgan.

MANYLION PERSONOL

- Wedi cwblhau Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn maes cysylltiedig â chwaraeon.
- Profiad perthnasol o ddatblygu / hyfforddi chwaraeon.
- Gwybodaeth am hyfforddi yng Nghymru ac yn y DG a dealltwriaeth ohono.
- Y gallu i fwrw prosiect yn ei flaen tra hefyd yn sicrhau perchnogaeth arno a chael partneriaid eraill i brynu i mewn iddo.
- Y gallu i gadw at ddyddiadau cau pendant a gweithio ar eich liwt eich hun.
- Y gallu i weithio gyda'r sector proffesiynol a gwirfoddol.
- Sgiliau cyfathrebu / rhyngbersonol eithriadol gyda phobl ar bob lefel, yn cynnwys y gallu i ddefnyddio synnwyr cyffredin a doethineb ac i ddarbwyllo.
- Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol.
- Ymroddiad i helpu pobl / sefydliadau i'w datblygu eu hunain.
- Sgiliau TG a gweinyddu rhagorol.
- Yn llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig.
- Trwydded yrru lawn.
- Mae'r gallu i siarad y Gymraeg yn ddymunol, ond nid yw'n hanfodol.
- Y gallu i weithio rhai oriau y tu allan i oriau swyddfa arferol, yn cynnwys gyda'r nosau a phenwythnosau.